

❖ MYFYRDOD Y BUGEILIAID

Luc 2:8–20

Dydw i ddim eisiau bod yn gas, ond ydych chi wedi sefyll wrth ymyl rhywun sy'n dioddef o B.O.? Dydy hynny ddim yn beth braf iawn.

Alla i ddychmygu bod y bugeiliaid oedd allan yn y caeau uwchben Bethlehem yn dioddef o B.O. Os ydych chi'n gofalu am anifeiliaid yna mae ogle'r anifeiliaid yn siŵr o fynd arnoch chi wrth i chi eu trin. A doedd dim ystafell ymolchi allan yn y caeau! Ar ben hynny, roedd pobl yn edrych i lawr eu trwynau ar fugeiliaid. Nhw oedd baw isa'r domen yn y dyddiau hynny. Doedden nhw ddim hyd yn oed yn gallu rhoi tystiolaeth mewn llys barn – doedd neb yn barod i'w credu nhw!

Roedd y bugeiliaid allan yn y caeau wrth eu gwaith o edrych ar ôl y defaid. Pwy ŵyr, falla eu bod nhw'n edrych ar ôl y defaid oedd yn cael eu defnyddio fel aberth yn y Deml yn Jerwsalem. Ond yn sydyn dyma nhw'n gweld angylion ac yn clywed neges gan Dduw. Sioc! Mae'r bobl fudr, ddirmygedig yma yn clywed y newyddion gorau posib – mae Duw wedi anfon yr Achubydd i'r byd ac mae wedi cael ei eni ym Methlehem. Maen nhw'n clywed côr o angylion yn moli Duw ac maen nhw'n penderfynu mynd i Fethlehem i weld os ydy hyn i gyd yn wir. Chwarae teg – rydw i'n siŵr y byddwn i'n meddwl fy mod i'n breuddwydio! Ond ar ôl gweld y babi maen nhw'n dechrau dweud wrth eraill beth sy wedi digwydd a pha mor dda ydy Duw. Y bobl oedd yn methu rhoi tystiolaeth mewn llys barn – yn dweud wrth bawb am eni'r Achubydd!

Meddylwch am hyn:

Pwy gafodd wybod gyntaf bod yr Achubydd wedi ei eni?

Pobl oedd yn dda i ddim yng ngolwg pawb arall, ond pobl roedd Duw yn eu caru ac am eu hachub. Daeth Iesu i'r byd i achub pobl mewn angen, nid pobl sydd angen dim.

Aeth y bugeiliaid fel roedden nhw at Iesu – dim newid i siwt, a shafio.

Mae Duw, yn Iesu, yn ein derbyn ni fel rydyn ni. Mae'n dy garu DI fel rwyd ti. Darllena Rhufeiniaid 5:8.

Siaradodd Duw hefo'r bugeiliaid allan yn y caeau – dim mewn capel neu eglwys.

Mae Duw yn gallu siarad gyda ni rywle. Ac rwyd ti'n gallu siarad gyda Duw lle bynnag wyt ti.

Roedd y bugeiliaid wedi clywed am yr Achubydd, ond roedd yn rhaid iddyn nhw fynd i'w weld er mwyn bod yn hollol siŵr bod popeth yn wir.

Falla dy fod di wedi clywed llawer am Iesu, ond rhaid i ti fynd ato mewn gweddi a thrwy'r Beibl cyn y byddi di'n sylweddoli go iawn bod popeth sy'n cael ei ddweud amdano yn wir. Byddi di'n ei nabod wedyn fel yr Iesu byw.

Ar ôl gweld y gwir am Iesu, aeth y bugeiliaid ati i rannu eu profiad gydag eraill.

Dyna ein gwaith ni yn y byd wedi i ni roi ein ffydd yn Iesu a'i dderbyn yn Arglwydd ein bywyd.

Catrin Roberts